

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Adroddiad Monitro Cyflogaeth 2023-24

This document is also available in English.

1. Rhagarweiniad

Yng Nghonwy, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu gweithlu amrywiol a thimoedd cynhwysol sy'n croesawu ystod eang o leisiau, profiadau, safbwyntiau a chefnidiroedd. Mae creu gweithle sy'n groesawgar a lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn yn sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaethau cynhwysol i bob un o'n preswylwyr.

Er mwyn ein galluogi i wneud hyn, yr ydym yn cydnabod bod rhaid i ni fonitro canlyniadau mewn cyflogaeth i sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu trwy gymhwyso ein polisïau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canlyniadau ar gyfer 2023-2024 yn unol â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gweithredu 2020-2024, y gellir ei ganfod ar ein gwefan yma: [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024](#)

Er mwyn diwallu ein Dyletswyddau Penodol o dan Ddeddfwriaeth Cydraddoldeb rydym yn monitro nodweddion gwarchoddedig ar gyfer y canlynol:

- Gweithwyr sy'n gweithio ar 31 Mawrth 2024
- *Dynion a merched fesul swydd, graddfa, cyflog, math o gontract, patrymau gwaith
- Ymgeiswyr am swyddi dros y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi gwneud cais yn fewnol i newid swydd o fewn yr awdurdod – olrhain ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus
- Gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer a lwyddodd i gyflwyno cais llwyddiannus
- Gweithwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant
- Gweithwyr sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno fel achwynydd neu fel unigolyn y gwnaed cwyn yn ei erbyn
- Gweithwyr sy'n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sy'n gadael a'u rhesymau dros adael

*Mewn deddfwriaeth, mae'r wybodaeth hon yn ofynnol mewn perthynas â dynion a merched yn unig

2. Data Monitro Cyflogaeth

Yr ydym yn casglu data monitro ar gyfer y meysydd canlynol:

- Oedran
- Rhyw
- Ailbennu Rhywedd
- Ethnigrwydd / Cenedligrwydd
- Anabled
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu Gred neu ddim Cred
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Statws Priodasol neu Bartneriaeth Sifil
- Cyfrifoldeb Gofalwr (ddim wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn)
- Gallu yn y Gymraeg (ddim wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn)

Cymerwyd camau bob blwyddyn i wella'r data monitro cydraddoldeb yr ydym yn ei gadw ar gyfer gweithwyr presennol. Yr ydym yn parchu hawl gweithwyr i gael eu cyfrif os ydynt yn dymuno hynny, ond hefyd yn cynnig y cyfle iddynt nodi ei bod yn 'well ganddynt beidio â dweud'. Golyga hyn nad yw'r niferoedd yn adlewyrchu ein gweithlu i gyd yn llwyr. Cyflwynwyd recriwtio ar y we yn 2015, gan wneud darparu'r data yn ofynnol, ac yr ydym wedi gweld gwelliant cyson yn y data a gasglwyd ers hynny. Rydym wedi datblygu arolwg i'w anfon i'r holl staff gyda'r nod o ddiweddarau'r data sydd gennym a llenwi bylchau yn y data lle bo'n bosibl. Byddwn yn annog staff i gwblhau'r arolwg hwn drwy ein dulliau cyfathrebu gan amlygu pam ein bod yn casglu'r wybodaeth, ond nid yw'r arolwg hwn yn orfodol a bydd staff yn cadw'r hawl i ymateb gan ddweud ei bod yn 'well ganddynt beidio â dweud'.

Oherwydd y nifer fechan o weithwyr Du, Asiaidd ac o gefndir Ethnig Lleiafrifol, mae'r adroddiad hwn at ei gilydd yn dangos y data wedi ei agregu yn y categori: Lleiafrif Ethnig (sef y term a ddefnyddir yn y [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#)). Mae hyn yn osgoi'r posibilrwydd o adnabod yr unigolion o'r data, ond caiff ethnigrwydd ei gasglu o hyd, a dangosir trosolwg o'r gweithlu ar dudalen 15/16. Rydym wedi defnyddio'r term Mwyafrif Byd-Eang ochr yn ochr â Lleiafrif Ethnig eleni (fersiwn fyrrach o'r term [Pobl o'r Mwyafrif Byd-eang](#)).

O fewn pob tabl mae ffigyrau sy'n llai na phump wedi eu disodli gan serennig (*) i ddiogelu hunaniaeth yr unigolion. Nid yw'r cyfansymiau wedi eu newid. Mae rhai tablau yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r dyddiad penodol y casglwyd y data, tra bo tablau eraill yn dangos perfformiad ar draws blwyddyn ariannol gyfan. Yn ystod 2023-24, rhannwyd Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai i wasanaethau unigol ar gyfer Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai Strategol, a adlewyrchir yn y data isod. Roedd y newidiadau eraill yn ystod y cyfnod yn cynnwys: symudodd ein tîm lechyd a Diogelwch o'r Gwasanaethau Pobl a

Pherfformiad i'r Gwasanaethau Rheoleiddio, symudodd ein Tîm Ystadau o'r Gwasanaeth Economi a Diwylliant i'r Gwasanaeth Tai Strategol, a symudodd ein tîm Cyfathrebu a Marchnata o'r Gwasanaeth Economi a Diwylliant i'r Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad.

3. Gwybodaeth Cydraddoldeb Staff: Trosolwg

(Cymariaethau gyda 2019/20, sef amser dechrau Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024)

Oedran

Mae cyfran y gweithwyr yng nghategoriâu ystod oedran 25-34 (18% i 16%) a 45-54 (28% i 25%) wedi gostwng ers 2019/20. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd yng nghategoriâu ystod oedran 35-44 (23% i 24%), 55-64 (21% i 24%) a 65+ (4% i 5%). Mae cyfran y gweithlu cyfan yng nghategori ystod oedran 16-24 wedi aros yn 6% dros y cyfnod hwn. Mae staff yn ystod oedran 16-24 yn parhau i ffurfio cyfran uwch o swyddi achlysurol (14%) o gymharu â swyddi cyfnod penodol a pharhaol (3%).

Anabledd

Yr ydym bellach yn cadw data am anableddau ar gyfer 57% o'r staff, o gymharu â 48% yn 2019/20. Dros y cyfnod mae'r gyfran o staff anabl (staff sydd wedi datgelu eu hanabledd) wedi cynyddu o 1.6% yn 2019/20 i 2.4% yn 2023-24. Gwnaed 232 o geisiadau gan ymgeiswyr anabl yn 2023-24, a oedd yn cynrychioli 5.6% o'r holl geisiadau. Y mae hyn yn uwch nag yn 2019-20, pan gafwyd 102 o geisiadau gan ymgeiswyr anabl (3.46% o'r holl ymgeiswyr).

Ethnigrwydd

Ar hyn o bryd yr ydym yn cadw data ar gyfer 60% o staff ynglŷn ag ethnigrwydd – cynnydd o 7% ers 2019-20. Mae cyfran y gweithwyr ethnig lleiafrifol (mwyafrif byd-eang) wedi cynyddu o 1.57% o'r holl weithwyr yn 2019-20 i 2.39% yn 2023-24. Gwnaed 201 o geisiadau gan bobl ethnig lleiafrifol (mwyafrif byd-eang) yn 2023-24,

a oedd yn cynrychioli 4.9% o'r holl geisiadau. Y mae hyn yn sylweddol uwch nag yn 2019-20, pan gafwyd 33 o geisiadau gan bobl ethnig lleiafrifol (mwyafrif byd-eang) (1.4% o'r holl ymgeiswyr). Er bod nifer yr ymgeiswyr ethnig lleiafrifol (mwyafrif byd-eang), a nifer yr ymgeiswyr ethnig lleiafrifol (mwyafrif byd-eang) a gyrhaeddodd restr fer a'u penodi, yn uwch nag unrhyw flwyddyn flaenorol, mae cyfran yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd restr fer a'u penodi yn is na'r gyfran ar gyfer ymgeiswyr Gwyn Prydeinig, Cymreig, Seisnig, Albanaidd a Gwyddelig Gogleddol.

Beichiogrwydd / Mamolaeth

Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd 145 MATB1 (Tystysgrifau Mamolaeth yn darparu tystiolaeth feddygol o feichiogrwydd a dyddiad geni'r babi). Mae hyn yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, lle cyflwynwyd 169 MATB1.

Rhyw (diffiniad yn y ddeddfwriaeth)

Yr oedd proffil y gweithlu (yn cynnwys yr holl weithwyr parhaol, cyfnod penodol ac achlysurol) eleni yn dangos bod 72% o'r gweithlu'n ferched a 28% yn ddynion. Mae hynny'n debyg i'r blynyddoedd blaenorol (gan gynnwys 2019-20), lle'r oedd oddeutu 75% o'r gweithlu'n ferched a 25% yn ddynion. Yr oedd y proffil rhywedd mewn perthynas â'n staff parhaol a staff cyfnod penodol yn debyg i broffil cyffredinol y gweithlu, ond yr oedd proffil rhywedd staff achlysurol yn 77% yn ferched a 23% yn ddynion.

Recriwtio

Cafwyd 4,114 o geisiadau am y 1,190 o swyddi gweigion a hysbysebwyd yn ystod 2023-24 – cyfartaledd o ryw 3.5 chais ar gyfer pob swydd wag. Mae hyn yn cymharu â 2,316 o geisiadau am 504 o swyddi gweigion yn 2019/20 (4.6 chais am bob swydd wag, ar gyfartaledd). Gweler crynodeb o geisiadau, nifer ar y rhestr fer, a phenodiadau yn ôl nodweddion gwarchoddedig yn Nhabl 12, isod.

Ymadawyr

Roedd 548 o ymadawyr eleni, o'i gymharu â 459 yn ystod 2019-20. O'r bobl a ymadawodd yn 2023-24, gadawyd Conwy'n wirfoddol gan 422 o bobl (77%) (338 o bobl, 74% yn 2019/20), a gadawodd 120 o bobl (22%) yn anwirfoddol (121 o bobl, 26% yn 2019/20). Mae crynodeb o'r rhai a ymadawodd yn ôl nodweddion gwarchoddedig yn Nhabl 18a, isod.

Cyfeiriadedd Rhywiol, Hunaniaeth Rhywedd a Chrefydd

Dyma'r nodweddion y mae gennym y gyfran leiaf o ddata ar eu cyfer, ond mae pob un wedi cynyddu ers 2019-20: Cyfeiriadedd Rhywiol (43% i 54%), Hunaniaeth Rhywedd (37% i 51%) a Chrefydd / Cred (43% i 54%). Cynhwysir rhywfaint o ddadansoddiad yn y data isod, ond bydd hyn yn gwella wrth i ni gynyddu'r data sydd gennym yn y meysydd hyn.

4. Gweithwyr sy'n gweithio i ni ar hyn o bryd

Y gweithlu ar 31 Mawrth 2024

Ar 31 Mawrth 2024, yr oeddem yn cyflogi 4,771 o bobl mewn amrywiaeth o swyddi parhaol, cyfnod penodol ac achlysurol ledled ein gwasanaethau. Roedd gan oddeutu 25% o'r bobl a gaiff eu cyflogi (1,205) ddwy swydd neu fwy â'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn - er enghraifft, gallai hyn fod yn gyfuniad o swyddi rhan-amser, swydd barhaol ynghyd â rôl achlysurol, ac fe allai fod ar draws sawl gwasanaeth. I gyd, yr oedd gan 4,121 o bobl un neu fwy o swyddi parhaol neu swyddi cyfnod penodol, ac yr oedd gan 1,511 o bobl un neu fwy o swyddi achlysurol. Mae cynnydd bychan wedi bod yn nifer y bobl a gyflogir eleni, a allai fod o ganlyniad i wasanaethau'n cymryd camau i leihau nifer y gweithwyr asiantaeth, dod â rhywfaint o ddarpariaeth gwasanaeth yn fewnol a chynnydd yn nifer y swyddi cyfnod penodol a ariennir drwy Gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Proffiliau'r Gweithlu'n seiliedig ar ddata monitro cydraddoldeb

Mae'r siartiau cylch isod yn seiliedig ar y data monitro cydraddoldeb sydd ar gael ar gyfer y 4,771 o bobl a oedd yn ffurfio gweithlu Conwy ar 31 Mawrth 2024 – yn cynnwys swyddi parhaol, cyfnod penodol ac achlysurol. Fe'u bwriedir i ddarparu darlun lefel uchel o weithlu'r Cyngor yn seiliedig ar y wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd.



Mae'r proffiliau'n nodi'r staff a oedd wedi rhannu data ar 31 Mawrth 2024, gan gynnwys ymatebion y rhai a oedd yn 'well ganddynt beidio â dweud', ond heb gynnwys yr achosion hynny lle nad oes unrhyw ddata / ymatebion ar hyn o bryd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, yr oedd gennym ddata ar gyfer:


- 100% o'r staff ynglŷn ag oedran a rhyw (cofnodir rhyw fel Gwryw / Benyw yn unol â gofynion Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi)
- 60% o'r staff ynglŷn ag ethnigrwydd
- 57% o'r staff ynglŷn ag anabled
- 54% o'r staff ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol
- 51% o'r staff ynglŷn â hunaniaeth rhywedd

Fel y nodwyd eisoes, rydym wedi datblygu arolwg yn ddiweddar i ddiweddarau'r data sydd gennym er mwyn gwella ein dealltwriaeth o broffiliau ein gweithlu. Yr ydym, yn rhan o hyn, wedi adolygu'r dewisiadau ymateb a gynigwyd (yn yr arolwg, a phan gesglir data yn rhan o'r ffurflen gais) i sicrhau bod dewisiadau di-destun ar gael fel bo'n briodol. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn gallu ymateb i'r cwestiynau yn unol â sut maent yn eu hystyried eu hunain a'u credoau, a gellir defnyddio ymatebion di-destun i siapio opsiynau ymateb i'r dyfodol. Un o brif nodau'r arolwg fydd casglu data gan ysgolion, gan fod lefel


y data sydd gennym ar hyn o bryd yn isel - ond mae darpariaeth data'n parhau i fod yn wirfoddol, ac mae staff yn cadw'r hawl i ddatgan bod yn 'well ganddynt beidio â dweud'.

Bydd cyfres o Gwestiynau Cyffredin ynghlwm â'r arolwg, i egluro pam ein bod yn gofyn am y wybodaeth hon ac i roi sicrwydd i staff y bydd unrhyw wybodaeth a rennir yn cael ei storio'n breifat ac yn ddiogel. Mae iaith a therminoleg cynhwysol yn newid dros amser, felly, fel rhan o ddatblygiad yr arolwg, rydym wedi adolygu'r dewisiadau ymateb a gynigir i staff i sicrhau eu bod yn gynhwysol. Golyga hyn y bydd y penawdau yn yr adroddiad hwn o bosibl yn destun newid mewn fersiynau yn y dyfodol.







- Lleiafrif Ethnig / Ethnic Minority
- Gwell gennyf beidio â dweud / Prefer Not to Say
- Gwyn / White



- Hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd ar yr enedigaeth / Gender identity the same as sex registered at birth
- Gwell gennyf beidio â dweud / Prefer Not to Say
- Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar yr enedigaeth / Gender identity different from sex registered at birth



Sylwch: Mae'r proffiliau uchod yn seiliedig ar y data sydd gennym ar hyn o bryd, ac mae'r ffigyrau yn y tablau isod yn cynnwys yr holl staff - gan gynnwys lle nad oes gennym ddata monitro cydraddoldeb ar hyn o bryd (y tu hwnt i oedran a rhyw). Wrth i'n sefyllfa parthed data barhau i wella, bydd y wybodaeth isod yn darparu cynrychiolaeth gywirach o'n gweithlu.

Tabl 1 – Nifer y Gweithwyr Parhaol neu Gyfnod Penodol ar 31 Mawrth 2024

Gwasanaeth	Cyfanswm	Ystod Oedran						Rhyw		Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol	Lleiafrif Ethnig (Mwyafrif Byd-eang)	Trawsryweddol	Beichiogrwyd a Mamolaeth
		16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Benyw	Gwryw						
Archwilio a Chaffael	12	*	*	*	5	*	*	9	*	*	9	*	*	*	*
Swyddfa'r Prif Weithredwr	7	*	*	*	*	*	*	6	*	*	6	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	197	*	49	56	46	40	5	162	35	13	82	5	10	*	11
Cyllid Corfforaethol	105	*	10	31	39	21	*	76	29	*	53	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	338	28	67	74	77	73	19	222	116	7	147	17	9	*	9
Addysg	1,964	53	324	533	533	463	58	1,652	312	19	1086	9	27	*	65
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	505	20	56	93	124	179	33	121	384	12	225	*	14	*	*
Technoleg Gwybodaeth	71	6	12	20	19	13	*	16	55	*	28	*	*	*	*
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	651	16	105	145	165	187	33	545	106	32	307	15	21	*	24
Y Gyfraith a Llywodraethu	61	*	14	20	16	8	*	55	6	*	30	*	*	*	6
Pobl a Pherfformiad	43	*	6	13	15	7	*	36	7	*	26	*	*	*	*
Gwasanaethau Rheoleiddio	109	*	11	29	34	29	*	62	47	*	61	5	*	*	*
Tai Strategol	58	*	10	19	15	12	*	43	15	*	24	*	*	*	*
Cyfanswm CBSC	4,121	134	665	1,037	1,091	1,037	157	3,005	1,116	98	2,084	61	91	10	127

Sylwch: Mae nifer y gweithwyr a gyfrifwyd yn Nhabl 1 yn seiliedig ar nifer yr unigolion a gyflogid yn barhaol neu am gyfnod penodol gan Gonwy ar 31 Mawrth 2024 (wedi eu cyfrif unwaith, er efallai bod ganddynt fwy nag un swydd barhaol neu gyfnod penodol).

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan * i ddiogelu hunaniaeth.

Tabl 1a – Nifer y Gweithwyr Parhaol neu Gyfnod Penodol ar 31 Mawrth 2024 yn ôl crefydd a chred

Gwasanaeth	Cyfanswm	Agnostig	Anffyddiwr	Bwdhydd	Cristion	Hindŵ	Tyst Jehofa	Iddew	Mwslim	Dim Crefydd	Arall	Heb ei Nodi
Archwilio a Chaffael	12	*	*	*	6	*	*	*	*	*	*	*
Swyddfa'r Prif Weithredwr	7	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	197	*	10	*	75	*	*	*	*	72	7	29
Cyllid Corfforaethol	105	*	*	*	51	*	*	*	*	27	*	18
Economi a Diwylliant	338	7	13	*	107	*	*	*	*	98	5	107
Addysg	1,964	22	23	*	268	*	*	*	*	173	12	1,462
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	505	9	23	*	205	*	*	*	*	142	9	116
Technoleg Gwybodaeth	71	*	9	*	19	*	*	*	*	33	*	*
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	651	8	25	*	230	*	*	*	*	200	16	167
Y Gyfraith a Llywodraethu	61	*	*	*	21	*	*	*	*	13	*	25
Pobl a Pherfformiad	43	*	*	*	19	*	*	*	*	18	*	*
Gwasanaethau Rheoleiddio	109	*	7	*	42	*	*	*	*	28	*	32
Tai Strategol	58	*	*	*	21	*	*	*	*	26	*	8
Cyfanswm CBSC	4,121	62	114	4	1,065	2	3	1	5	835	51	1,979

Sylwer: Mae nifer y gweithwyr a gyfrifwyd yn Nhabl 1a yn seiliedig ar nifer yr unigolion a gyflogid yn barhaol neu am gyfnod penodol gan Gonwy ar 31 Mawrth 2024 (wedi eu cyfrif unwaith, er efallai bod ganddynt fwy nag un swydd barhaol neu gyfnod penodol).

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan * i ddiogelu hunaniaeth.

Tabl 2 – Nifer y Gweithwyr Achlysurol ar 31 Mawrth 2024

Gwasanaeth	Cyfanswm	Ystod Oedran						Rhyw		Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw, Lesbiaid, Deurywiol	Lleiafrif Ethnig (Mwyafraig Bydeang)	Trawsryweddol	Beichiogrydd a Mamolaeth
		16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Benyw	Gwryw						
Plant, Teuluoedd a Diogelu	62	*	11	14	18	13	*	55	7	*	27	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	344	138	64	44	38	43	17	186	158	12	81	5	14	*	*
Addysg	1,006	67	177	257	247	205	53	850	156	9	504	*	11	*	*
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	17	*	*	*	*	6	6	12	5	*	11	*	*	*	17
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	70	*	13	17	15	12	9	55	15	*	23	*	*	*	*
Y Gyfraith a Llywodraethu	11	*	*	*	*	*	7	6	5	*	9	*	*	*	*
Gwasanaethau Rheoleiddio	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Cyfanswm CBSC	1,511	213	265	336	320	281	96	1,164	347	26	655	8	30	2	18

Sylwer: Mae nifer y gweithwyr a gyfrifwyd yn Nhabl 2 yn seiliedig ar nifer yr unigolion a gyflogid yn achlysurol gan Gonwy ar 31 Mawrth 2024 (wedi eu cyfrif unwaith, er efallai bod ganddynt fwy nag un swydd achlysurol).

Tabl 2a – Nifer y Gweithwyr Achlysurol ar 31 Mawrth 2024 yn ôl crefydd a chred

Gwasanaeth	Cyfanswm	Agnostig	Anffyddiwr	Bwdhydd	Cristion	Tyst Jehofa	Iddew	Dim Crefydd	Arall	Heb ei Nodi
Plant, Teuluoedd a Diogelu	62	*	5	*	19	*	*	25	*	11
Economi a Diwylliant	344	9	23	*	123	*	*	113	*	70
Addysg	1,006	10	6	*	101	*	*	89	7	793
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	17	*	*	*	10	*	*	*	*	*
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	70	*	*	*	19	*	*	22	*	25
Y Gyfraith a Llywodraethu	11	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Gwasanaethau Rheoleiddio	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Cyfanswm CBSC	1,511	20	38	1	276	1	1	254	13	907

Sylwer: Mae nifer y gweithwyr a gyfrifwyd yn Nhabl 2a yn seiliedig ar nifer yr unigolion a gyflogid yn achlysurol gan Gonwy ar 31 Mawrth 2024 (wedi eu cyfrif unwaith, er efallai bod ganddynt fwy nag un swydd achlysurol).

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan * i ddiogelu hunaniaeth

Ar 31 Mawrth 2024 yr oedd gennym y data canlynol yn ôl nodweddion gwarchoddedig ar gyfer staff Conwy:


Nodwedd Warchoddedig	Data Cydraddoldeb a Gedwir	Data Cydraddoldeb a Gedwir – Newid o 2022-23	% o'r Holl Weithwyr	% o Weithwyr Cyfnod Penodol / Parhaol	% o Weithwyr Achlysurol
Rhyw	100%	Dim Newid			
Gwryw			28%	27%	23%
Benyw			72%	73%	77%
Oedran	100%	Dim Newid			
16-24			6%	3%	14%
25-34			16%	16%	18%
35-44			24%	25%	22%
45-54			25%	26%	21%
55-64			24%	25%	19%
65+			5%	4%	6%
Anabledd	56.8%	+2.7%			
Staff Anabl			2.39%	2.38%	1.72%
Mae'n well gen i beidio â dweud			1.40%	1.43%	0.93%
Hil	60.4%	+1.9%			
Staff Lleiafrif Ethnig (Mwyafrif Byd-eang)			2.39%	2.16%	1.99%
Mae'n well gen i beidio â dweud			0.27%	0.27%	0.13%
Statws Priodasol / Partneriaeth Sifil	99.2%	-0.2%			
Staff Priod neu mewn Partneriaeth Sifil			48.25%	50.57%	43.35%
Mae'n well gen i beidio â dweud			0.44%	0.39%	0.60%
Crefydd / Cred	54.0%	+2.9%			
Crefydd wedi ei nodi			51.29%	51.98%	39.97%
Mae'n well gen i beidio â dweud			2.70%	2.69%	1.72%
Cyfeiriadedd Rhywiol	53.8%	+2.9%			
Staff Lesbïaidd / Hoyw / Deurywiol			1.38%	1.48%	0.53%
Mae'n well gen i beidio â dweud			2.77%	2.69%	2.32%
Ailbennu Rhywedd	51.3%	+3.6%			
Staff trawsryweddol			0.25%	0.24%	0.13%
Mae'n well gen i beidio â dweud			0.34%	0.34%	0.13%
Bechiogrwydd / Mamolaeth*	-	-			

Nodwedd Warchoddedig	Data Cydraddoldeb a Gedwir	Data Cydraddoldeb a Gedwir – Newid o 2022-23	% o'r Holl Weithwyr	% o Weithwyr Cyfnod Penodol / Parhaol	% o Weithwyr Achlysurol
Beichiog neu ar Gyfnod Mamolaeth			2.72%	3.08%	1.19%

*Canran o weithwyr benywaidd

Unwaith y byddwn wedi cwblhau'r arolwg, byddwn yn adolygu'r data a gasglwyd er mwyn ystyried unrhyw gamau gweithredu eraill sydd eu hangen i wella'r broses barhaus o gasglu data (e.e. ceisio deall yn well pam mae rhai staff yn dewis bod yn 'well ganddynt beidio â dweud' pan ofynnir am ddatgelu gwybodaeth).

Proffil Oedran Gweithlu (Swyddi) Conwy, 31 Mawrth 2024




Mae'r siart uchod yn dangos proffil oedran ein gweithlu yn 2023-24 (yn seiliedig ar y swyddi sydd gennym). Mae'r tabl isod yn dangos y ffigurau hyn ochr yn ochr â ffigurau'r llynedd i amlygu unrhyw newid o un flwyddyn i'r llall:

Grŵp Oedran	2022-23 (%)	2023-24 (%)
16-24	6	6
25-34	16	17

Grŵp Oedran	2022-23 (%)	2023-24 (%)
35-44	24	24
45-54	25	25
55-64	24	23
65+	5	4

Proffil Oedran Gweithlu Conwy fesul Math o Gontract (Swyddi), 31 Mawrth 2024



	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed
Parhaol / Cyfnod Penodol	3%	16%	25%	26%	25%	4%
Achlysurol	14%	18%	22%	21%	19%	6%
Yr holl wasanaethau	6%	17%	24%	25%	23%	4%

Mae oddeutu dau draean (67%) o'r gweithlu parhaol a gweithlu cyfnod penodol yng ngrwpiau oedran 25-34 (16%), 35-44 (25%) a 45-54 (26%) (1% yn llai nag yn 2022-23). Mae 29% o'r gweithlu parhaol a chyfnod penodol yng ngrwpiau oedran 55-64 a 65+ (o gymharu â 30% yn 2022-23). Mae proffil oedran staff achlysurol yn debyg i'r llynedd. Roedd 32% o'r gweithwyr achlysurol rhwng 16 a 34 oed, o'i gymharu â 33% yn 2022-23. Roedd 25% o'r gweithlu achlysurol yn 55 oed neu'n hŷn, sydd yr un fath â 2022-23.

Proffil Ethnigrwydd Gweithlu Conwy heb ei Agregu (Parhaol, Cyfnod Penodol ac Achlysurol), 31 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn dangos proffil ethnigrwydd ein gweithlu heb ei agregu, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024, ochr yn ochr â phroffil oedran gweithio cymharol poblogaeth Conwy (pobl sy'n byw yn y sir ac sydd rhwng 16 a 64 mlwydd oed) o Gyfrifiad 2021.

Mae colofn 'Y Gweithlu – Data a Gedwir' yn dangos hyn fel cyfran o'n gweithlu y mae gennym ddata ar ei gyfer ar hyn o bryd (ac eithrio staff lle nad oes gennym ddata amdanynt ar hyn o bryd). Mae colofn 'Y Gweithlu – Cyffredinol' yn dangos hyn fel cyfran o'n gweithlu cyfan (gan gynnwys pobl nad oes gennym ddata ar eu cyfer ar hyn o bryd). Byddwn yn gallu defnyddio'r tabl hwn yn y dyfodol fel meincnod ar gyfer ein gwaith gwrth-hiliaeth, wrth i ni barhau i weithio tuag at Gymru wrth-hiliol erbyn 2030.

Ethnigrwydd (Categoriâu Cyfrifiad 2021)	Y Gweithlu – Data a Gedwir (%) (Ac eithrio lle nad oes gennym ddata)	Y Gweithlu – Cyffredinol (%) (Gan gynnwys lle nad oes gennym ddata)	% o Boblogaeth Oedran Gweithio Conwy (Cyfrifiad 2021)
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: Bangladeshaidd	0.00	0.00	0.00
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: Tsieineaidd	0.22	0.13	0.13
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: Indiaidd	0.21	0.13	0.07
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: Pacistanaidd	0.07	0.04	0.00
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: Cefndir Asiaidd Arall	0.21	0.13	0.19
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd: Affricanaidd	0.21	0.13	0.00
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd: Caribïaidd	0.00	0.00	0.00
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd: Cefndir Du Arall	0.03	0.02	0.00
Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog: Asiaidd a Gwyn	0.21	0.13	0.08
Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog: Gwyn a Du Affricanaidd	0.10	0.06	0.00
Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog: Gwyn a Du Caribïaidd	0.31	0.19	0.00

Ethnigrwydd (Categoriâu Cyfrifiad 2021)	Y Gweithlu – Data a Gedwir (%) (Ac eithrio lle nad oes gennym ddata)	Y Gweithlu – Cyffredinol (%) (Gan gynnwys lle nad oes gennym ddata)	% o Boblogaeth Oedran Gweithio Conwy (Cyfrifiad 2021)
Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog: Cefndir Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog eraill	0.42	0.25	0.03
Gwyn: Prydeinig, Seisnig, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, Albanaidd neu Gymreig	95.59	57.74	96.37
Gwyn: Gwyddelig	0.52	0.31	0.49
Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0.00	0.00	0.00
Gwyn: Roma	0.00	0.00	0.00
Gwyn: Cefndir Gwyn Arall	1.46	0.88	2.63
Grŵp Ethnig Arall: Arabaidd	0.00	0.00	0.00
Grŵp Ethnig Arall: Unrhyw grŵp ethnig arall	0.00	0.00	0.00
Mae'n well gen i beidio â dweud	0.45	0.27	Amherthnasol
Dim Data	Amherthnasol	39.59	Amherthnasol
Cyfanswm	100	100	100


Dadansoddiad Rhywedd yn ôl Contract / Cyflog / Math o Swydd / Graddfa

Mae Tablau 3-6 isod yn seiliedig ar nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi o fewn Conwy, yn hytrach na bod yn seiliedig ar yr unigolion fel y dangosir yn Nhabl 1 a 2). Fel y nodwyd eisoes, mae gennym nifer fawr o weithwyr sydd â mwy nag un swydd, yn aml yn rhan-amser ac yn aml ar draws mathau gwahanol o swyddi a gwasanaethau. Nid yw Conwy'n cyflogi 6,570 o weithwyr – dyma gyfanswm y swyddi sydd wedi eu llenwi gan staff parhaol, staff cyfnod penodol a staff achlysurol.

Math o Contract

Tabl 3 – Nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi yn ôl y Math o Contract ar 31 Mawrth 2024

Rhyw	Parhaol		Cyfnod Penodol		Achlysurol	Cyfanswm
	Llawn Amser	Rhan Amser	Llawn Amser	Rhan Amser	Oriau Amrywiol	
Benyw	1,196 (18%)	1,778 (27%)	195 (3%)	220 (3%)	1,565 (24%)	4,954 (75%)
Gwryw	832 (13%)	249 (4%)	70 (1%)	29 (0.4%)	436 (7%)	1,616 (25%)
Cyfanswm	2,028	2,027	265	249	2,001	6,570




Mae 39% o ddynion a 61% o ferched mewn swyddi llawn amser (swyddi parhaol a chyfnod penodol) o gymharu â 12% o ddynion ac 88% o ferched mewn swyddi rhan amser (swyddi parhaol a chyfnod penodol). Dengys hyn na fu newid sylweddol ers y flwyddyn gynt.

Yn y gorffennol, rydym wedi cyflogi ychydig mwy o staff rhan amser a staff llawn amser mewn swyddi parhaol a chyfnod penodol. Fodd bynnag, mae'r bwch yn cau'n raddol yn ddiweddar, ac eleni, rydym wedi cyflogi ychydig mwy o staff llawn amser (50.2%) na staff rhan amser (49.8%) mewn swyddi parhaol a chyfnod penodol (y ffigurau cyfatebol yn Adroddiad Monitro Cyflogaeth 2019-20 oedd 48.2% o staff llawn amser a 51.9% o staff rhan amser mewn swyddi parhaol a chyfnod penodol).

Rydym yn parhau i hyrwyddo opsiynau gweithio hyblyg yn ystod recriwtio a thrwy gydol cyflogaeth i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael iddynt drwy gydol eu hamser gyda ni.

Tabl 4 – Swyddi (nifer a chanran) sydd wedi eu llenwi yn ôl Ystod Gyflog ar 31 Mawrth 2024



Rhyw	Cyflog hyd at 16,000	Cyflog 16,001 – 20,000	Cyflog 20,001 – 24,000	Cyflog 24,001 – 28,000	Cyflog 28,001 – 32,000	Cyflog 32,001 – 36,000	Cyflog 36,001 – 40,000	Cyflog 40,001 – 45,000	Cyflog 45,001 – 50,000	Cyflog 50,000+	Cyfanswm
Benyw	2,692 (82%)	439 (88%)	298 (59%)	312 (60%)	225 (68%)	198 (64%)	180 (74%)	184 (76%)	299 (71%)	127 (62%)	4,954 (75%)
Gwryw	602 (18%)	61 (12%)	211 (41%)	207 (40%)	105 (32%)	112 (36%)	62 (26%)	58 (24%)	121 (29%)	77 (38%)	1,616 (25%)
Cyfanswm	3,294	500	509	519	330	310	242	242	420	204	6,570

(Mae'r tabl yn defnyddio cyflog pro rata)

Ar 31 Mawrth 2024 yr oedd 6,570 o bobl yn gweithio i Gonwy, ac roedd, 41% (2,692 o swyddi) o'r rhain yn weithwyr benywaidd gyda chyflog o hyd at £16,000. Y gyfran gyfatebol y flwyddyn gynt oedd 43%. Mae dros hanner y swyddi a wneir gan ferched (54%), a thros draean (37%) y swyddi a wneir gan ddynion, o fewn yr ystod gyflog hyd at £16,000.


Mae'r mwyafrif o'r swyddi o fewn yr "ystod gyflog hyd at £16,000", a gaiff eu llenwi gan weithwyr benywaidd yn bennaf (82%), yn y meysydd Addysg (68%) ac Economi a Diwylliant (20%). Mae'r rhain naill ai'n swyddi achlysurol (60.8%), rhan-amser (39.2%) neu brentisiaeth (0.1%). Mae'r mwyafrif o'r swyddi o fewn yr ystod gyflog £16,001-£20,000, a gaiff eu llenwi eto gan weithwyr benywaidd yn bennaf (88%), yn y meysydd Addysg (68%) a Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig (19%). Mae'r rhain yn swyddi rhan-amser (99.8%) a llawn amser (0.2%).

I gefnogi'r holl staff gyda chostau byw cynyddol, rydym wedi cyhoeddi tudalen ar y Fewnrwyd sy'n rhannu ffynonellau gwybodaeth gyda'r nod o helpu a chynghori staff gyda chostau byw cynyddol. Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys gwybodaeth ar wirio mynediad at fudd-daliadau/grantiau posibl, banciau bwyd, cyngor ac adnoddau i helpu gyda chostau ynni a ffyrdd o wneud y mwyaf o fuddion i staff.

Bu cynnydd bychan yng nghyfran y merched yn yr ystod gyflog £50,000 a throsodd yn y flwyddyn hon – yr oedd yn 62%, o gymharu â 59% y flwyddyn gynt a 57% y flwyddyn cyn hynny. Mae hyn hefyd yn cynrychioli cynnydd yng nghyfanswm y staff benywaidd yn y band hwn, o 112 i 127, ac mae nifer y dynion yn y band hwn wedi aros yr un fath (77).

Roedd y graddfeydd cyflog dros £50,000 yn 2022-23 yn cynnwys: Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth, Prif Athrawon, Dirprwy Brif Athrawon, Ymgynghorwyr/Arolygwyr Addysg, Graddfa G11 a Graddfa 12.

Tabl 5 – Nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi yn ôl y Math o Swydd ar 31 Mawrth 2024




Rhyw	Gweinyddol a Chlercio	Gofal a Chymorth	Addysg	Rheoli	Gweithredol	Proffesiynol	Uwch Reolwyr	Technegol	Cyfanswm
Benyw	274 (84%)	927 (89%)	901 (80%)	109 (64%)	1,184 (69%)	362 (70%)	9 (56%)	1,188 (72%)	4,954 (75%)
Gwryw	52 (16%)	114 (11%)	228 (20%)	60 (36%)	530 (31%)	154 (30%)	7 (44%)	471 (28%)	1,616 (25%)
Cyfanswm	326	1,041	1,129	169	1,714	510	16	1,659	6,570

Sylwch: Mae 'Rheoli' a 'Phroffesiynol' ill dau'n cynnwys pobl sy'n rheoli gweithwyr.

Mae 64% (109) o swyddi rheoli yn cael eu gwneud gan weithwyr benywaidd a 36% (60) yn cael eu gwneud gan weithwyr gwrywaidd. Mae 56% (9) o swyddi uwch reolwyr yn cael eu gwneud gan ferched a 44% (7) gan ddynion. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd bychan yng nghyfran y merched mewn swyddi Rheoli a gostyngiad bychan yng nghyfran y merched mewn swyddi Uwch Reolwyr o gymharu â'r llynedd (62% o swyddi Rheoli, 60% o swyddi Uwch Reolwyr). O'u cymharu â phroffil cyffredinol

y gweithlu, sef 75% o weithwyr benywaidd a 25% o weithwyr gwrywaidd, mae gweithwyr gwrywaidd yn dal i fod wedi eu tangynrychioli mewn swyddi Gweinyddol a Chlercio, Gofal a Chymorth, ac Addysg. Mewn cymhariaeth, mae gweithwyr benywaidd yn dal i fod wedi eu tangynrychioli mewn swyddi Rheoli ac Uwch Reolwyr o gymharu â phroffil cyffredinol y gweithlu.

Tabl 6 – Nifer a chanran y swyddi sydd wedi eu llenwi yn ôl Graddfa ar 31 Mawrth 2024 (yn cynnwys Llawn Amser, Rhan Amser ac Achlysurol)



Rhyw	G01	G02	G03	G04	G05	G06	G07	G08	G09	G10	G11	G12
Benyw	1,555 (84%)	560 (68%)	255 (66%)	504 (73%)	463 (77%)	219 (61%)	91 (60%)	198 (80%)	75 (74%)	44 (56%)	8 (57%)	19 (54%)
Gwryw	300 (16%)	258 (32%)	130 (34%)	191 (27%)	142 (23%)	138 (39%)	63 (40%)	51 (20%)	26 (26%)	35 (44%)	6 (43%)	16 (46%)
Cyfanswm	1,855	818	385	695	605	357	152	249	101	79	14	35

Rhyw	Uwch Reolwyr	Pennaeth / Dirprwy Bennaeth	Athro / Athrawes	Ymgynghorydd Addysg	Gweithiwr Ieuentid	Prentis Modern	Amrywiol	Cyfanswm ar gyfer yr holl raddfeydd
Benyw	9 (56%)	97 (67%)	792 (82%)	11 (69%)	17 (55%)	5 (45%)	32 (82%)	4,954 (75%)
Gwryw	7 (44%)	48 (33%)	175 (18%)	5 (31%)	14 (45%)	6 (55%)	7 (18%)	1,616 (25%)
Cyfanswm	16	145	967	16	31	11	39	6,570

Mae 'Ymgynghorydd Addysg' yn cynnwys gweithwyr nad ydynt wedi eu lleoli mewn ysgolion megis Arolygwyr Addysg a Seicolegwyr.

Mae 28% o'r holl swyddi ar draws y Cyngor yn rhai Gradd G01, a gweithwyr benywaidd sy'n gwneud 84% ohonynt, ac mae dynion yn gwneud 16% ohonynt. O fewn Graddfeydd G04, G05, G08 a G09 mae'r rhaniad rhwng dynion a merched fwy neu lai'n adlewyrchu proffil y gweithlu, sef 78:22. O gymharu â phroffil cyffredinol y gweithlu, mae merched yn cael eu tangynrychioli yn ôl cyfran yng Ngraddfeydd G02, G03, G06, G07, G10, G11 a G12 ac fel Penaeithiaid / Dirprwy Benaethiaid (67%), Uwch Reolwyr (56%) a Phrentisiaid Modern (45%). Mae dynion yn cael eu tangynrychioli yng Ngraddfa G01 (16%) ac ym maes Addysgu (18%).

5. Recriwtio a Dyrchafu

Mae'r holl geisiadau am swyddi yn cael eu mewnbynnu ar system AD / Cyflogau drwy'r system recriwtio ar y we. Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn rhan o'r broses (gyda'r dewis i ymateb bod yn 'well ganddynt beidio â dweud' i rai cwestiynau). Mae gwybodaeth monitro cydraddoldeb ar gael i staff Adnoddau Dynol yn unig ac fe'i hystyrir yn ddata sensitif (nid rheolwyr recriwtio) i'w ddefnyddio ar lefel agrededig er mwyn adrodd a monitro effaith.

Nid yw manylion personol ymgeiswyr yn cael eu rhannu gyda rheolwyr recriwtio tan ar ôl llunio rhestr fer, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu na rhagfarn yn y broses llunio rhestr fer a bod y broses honno'n seiliedig ar y manylion a ddarparwyd yn y ffurflen gais, ac nid ar yr unigolyn. Yr ydym ar hyn o bryd yn adolygu'r camau y gellir eu cymryd o fewn iTrent i wneud y manylion hyn yn fwy anhysbys drwy gydol y broses o lunio rhestr fer (e.e. drwy gael gwared â chyfeiriadau e-byst a allai beri i rywun gael ei adnabod).

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, hysbysebwyd 1,190 o swyddi, gan gynnwys swyddi a gafodd eu hail-hysbysebu ac achosion lle'r oedd nifer o swyddi gweigion ar gyfer un hysbyseb swydd. Mae hyn yn ychydig yn uwch na'r flwyddyn gynt, pan hysbysebwyd 1,097 o swyddi, ond mae'n dal i fod yn uchel o gymharu â'r blynyddoedd cyn hynny (572 yn 2020-21, 504 yn 2019-20 a 470 yn 2018-19). Cafodd 301 o'r swyddi a hysbysebwyd eleni eu hysbysebu fwy nag unwaith.

Gwneir pob dyrchafiad yn ôl swydd wag a nodwyd, sydd wedi ei hysbysebu a'r broses recriwtio arferol wedi ei dilyn, ac yr ydym yn gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr mewnol ac allanol yn y tablau isod i ddangos dyrchafiadau mewnol.

Tabl 7 – Pob Swydd Wag a Hysbysebwyd yn 2023-2024

(Mae hyn yn cynnwys hysbysebion ar gyfer swyddi llawn amser, rhan amser ac achlysurol, ac mae'n cynnwys swyddi sydd wedi eu hail-hysbysebu)

Gwasanaeth	Swyddi a Hysbysebwyd
Archwilio a Chaffael	3
Plant, Teuluoedd a Diogelu	88
Cyllid Corfforaethol	13
Economi a Diwylliant	364
Addysg	261
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	134
Technoleg Gwybodaeth	17
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	225
Y Gyfraith a Llywodraethu	9
Pobl a Pherfformiad	15
Gwasanaethau Rheoleiddio	41
Tai Strategol	20
Cyfanswm	1,190

Tabl 8a – Ymgeiswyr Allanol am Gyflogaeth yn ystod 2023-24

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr Allanol	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig (Mwyafrif Bydeang)	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	8	*	6	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	6
Plant, Teuluoedd a Diogelu	168	23	145	*	20	61	44	37	*	*	*	18	11	58	9	99
Cyllid Corfforaethol	35	14	20	*	*	13	6	12	*	*	*	*	*	13	*	28
Economi a Diwylliant	649	277	366	*	288	145	66	81	62	5	*	37	50	153	49	385
Addysg	791	143	648	*	135	324	197	74	60	*	*	33	26	246	31	417
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	380	298	81	*	58	94	89	66	61	12	*	12	18	127	15	203
Technoleg Gwybodaeth	37	30	7	*	6	19	7	*	*	*	*	7	*	11	*	26
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	545	149	394	*	82	174	126	112	45	*	*	32	40	204	31	275
Y Gyfraith a Llywodraethu	19	8	11	*	*	8	*	5	*	*	*	*	*	9	*	9
Pobl a Pherfformiad	107	32	75	*	13	36	25	24	8	*	*	10	7	49	5	71
Gwasanaethau Rheoleiddio	65	50	15	*	11	15	18	14	7	*	*	7	*	29	6	32
Tai Strategol	77	22	55	*	9	26	21	16	5	*	*	*	6	33	9	47
Cyfanswm	2,881	1,048	1,823	10	628	917	602	447	257	26	4	159	166	934	161	1,598

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan * i ddiogelu hunaniaeth

Tabl 8b – Ymgeiswyr Mewnol am Gyflogaeth a / neu Ddyrchafiad yn ystod 2023-24

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr Mewnol	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig (Mwyafrif Bydeang)	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	3	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	78	10	68	*	*	34	19	9	11	*	*	*	*	24	*	41
Cyllid Corfforaethol	16	*	15	*	*	*	5	*	*	*	*	*	*	9	*	11
Economi a Diwylliant	283	138	145	*	117	66	44	31	20	5	*	14	17	64	11	140
Addysg	395	83	312	*	40	136	122	64	31	*	*	11	13	167	14	211
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	111	87	24	*	14	17	36	19	20	5	*	*	5	44	*	69
Technoleg Gwybodaeth	34	27	7	*	5	15	8	6	*	*	*	*	*	6	*	23
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	244	53	191	*	18	60	80	59	25	*	*	10	24	101	6	118
Y Gyfraith a Llywodraethu	7	*	6	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Pobl a Pherfformiad	18	7	11	*	*	5	8	*	*	*	*	*	*	9	*	8
Gwasanaethau Rheoleiddio	17	11	6	*	*	*	6	*	*	*	*	*	*	7	*	11
Tai Strategol	27	*	24	*	*	7	11	7	*	*	*	*	*	12	*	13
Cyfanswm	1,233	422	811	0	203	345	341	210	117	17	0	42	66	450	38	650

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan * i ddiogelu hunaniaeth

Tabl 8c – Cyfanswm yr Ymgeiswyr am Gyflogaeth a / neu Ddyrchafiad yn ystod 2023-24

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig (Mwyafrif Bydeang)	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	11	*	8	*	*	*	*	6	*	*	*	*	*	5	*	7
Plant, Teuluoedd a Diogelu	246	33	213	*	23	95	63	46	15	*	*	22	14	82	11	140
Cyllid Corfforaethol	51	15	35	*	*	16	11	16	5	*	*	*	*	22	*	39
Economi a Diwylliant	932	415	511	6	405	211	110	112	82	10	*	51	67	217	60	525
Addysg	1,186	226	960	*	175	460	319	138	91	*	*	44	39	413	45	628
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	491	385	105	*	72	111	125	85	81	17	*	14	23	171	17	272
Technoleg Gwybodaeth	71	57	14	*	11	34	15	9	*	*	*	7	*	17	*	49
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	789	202	585	*	100	234	206	171	70	6	*	42	64	305	37	393
Y Gyfraith a Llywodraethu	26	9	17	*	*	8	*	8	*	*	*	*	*	13	*	13
Pobl a Pherfformiad	125	39	86	*	14	41	33	26	9	*	*	11	7	58	5	79
Gwasanaethau Rheoleiddio	82	61	21	*	14	17	24	17	10	*	*	7	*	36	6	43
Tai Strategol	104	25	79	*	9	33	32	23	7	*	*	*	7	45	10	60
Cyfanswm	4,114	1,470	2,634	10	831	1,262	943	657	374	43	4	201	232	1,384	199	2,248

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan * i ddiogelu hunaniaeth

Tabl 9a – Ymgeiswyr Allanol ar Restr Fer am Gyflogaeth yn ystod 2023-24

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr Allanol ar Restr Fer	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig (Mwyafrif Bydeang)	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	83	12	71	*	6	34	19	19	*	*	*	5	6	24	6	47
Cyllid Corfforaethol	18	7	11	*	*	6	*	5	*	*	*	*	*	9	*	14
Economi a Diwylliant	363	153	207	*	169	70	31	52	36	*	*	16	30	79	24	222
Addysg	184	32	152	*	23	67	50	22	22	*	*	7	10	68	5	85
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	147	111	35	*	33	16	39	27	25	7	*	5	10	51	6	90
Technoleg Gwybodaeth	9	8	*	*	*	5	*	*	*	*	*	*	*	*	*	7
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	255	64	190	*	33	66	61	61	29	*	*	6	15	100	11	119
Y Gyfraith a Llywodraethu	16	6	10	*	*	6	*	*	*	*	*	*	*	9	*	7
Pobl a Pherfformiad	34	7	27	*	5	5	8	11	5	*	*	*	*	19	*	22
Gwasanaethau Rheoleiddio	38	29	9	*	*	8	14	9	*	*	*	*	*	17	*	18
Tai Strategol	19	*	15	*	*	5	6	*	*	*	*	*	*	11	*	15
Cyfanswm	1,167	433	729	5	280	288	235	214	131	15	4	43	80	390	58	647

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan * i ddiogelu hunaniaeth

Tabl 9b – Ymgeiswyr Mewnol ar Restr Fer am Gyflogaeth a / neu Ddychafiad yn ystod 2023-24

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr Mewnol ar Restr Fer	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig (Mwyafrif Bydeang)	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	2	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	68	9	59	*	*	31	15	8	9	*	*	*	*	21	*	35
Cyllid Corfforaethol	14	*	14	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	7	*	9
Economi a Diwylliant	237	108	129	*	100	60	28	29	16	*	*	11	10	51	11	118
Addysg	206	54	152	*	21	68	60	35	20	*	*	6	8	83	6	101
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	93	72	21	*	13	16	31	14	14	5	*	*	*	35	*	55
Technoleg Gwybodaeth	21	18	*	*	*	11	5	*	*	*	*	*	*	*	*	14
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	192	35	157	*	16	48	51	52	23	*	*	*	18	73	5	87
Y Gyfraith a Llywodraethu	7	*	6	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Pobl a Pherfformiad	10	*	7	*	*	*	5	*	*	*	*	*	*	5	*	*
Gwasanaethau Rheoleiddio	15	11	*	*	*	*	6	3	*	*	*	*	*	7	*	10
Tai Strategol	19	*	19	*	*	*	8	5	*	*	*	*	*	8	*	10
Cyfanswm	884	311	573	0	162	244	215	157	91	15	0	23	45	299	28	448

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan * i ddiogelu hunaniaeth

Tabl 9c – Cyfanswm yr Ymgeiswyr ar Restr Fer am Gyflogaeth a / neu Ddyrchafiad yn ystod 2023-24

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr ar Restr Fer	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig (Mwyafrif Bydeang)	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	3	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	151	21	130	*	9	65	34	27	13	*	*	8	7	45	8	82
Cyllid Corfforaethol	32	7	25	*	*	9	8	8	*	*	*	*	*	16	*	23
Economi a Diwylliant	600	261	336	*	269	130	59	81	52	7	*	27	40	130	35	340
Addysg	390	86	304	*	44	135	110	57	42	*	*	13	18	151	11	186
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	240	183	56	*	46	32	70	41	39	12	*	6	14	86	7	145
Technoleg Gwybodaeth	30	26	*	*	5	16	6	*	*	*	*	*	*	5	*	21
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	447	99	347	*	49	114	112	113	52	5	*	8	33	173	16	206
Y Gyfraith a Llywodraethu	23	7	16	*	4	6	3	7	*	*	*	*	*	13	*	11
Pobl a Pherfformiad	44	10	34	*	6	7	13	12	6	*	*	*	*	24	*	26
Gwasanaethau Rheoleiddio	53	40	13	*	6	9	20	12	6	*	*	*	*	24	*	28
Tai Strategol	38	*	34	*	*	9	14	9	5	*	*	*	*	19	*	25
Cyfanswm	2,051	744	1,302	5	442	532	450	371	222	30	4	66	125	689	86	1,095

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan * i ddiogelu hunaniaeth

Tabl 10a – Ymgeiswyr Allanol a Benodwyd yn ystod 2023-2024

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr Allanol a Benodwyd	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig (Mwyafrif Bydeang)	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	0	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	7	*	5	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Cyllid Corfforaethol	0	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	21	8	13	*	6	7	*	6	*	*	*	*	*	7	*	15
Addysg	37	8	29	*	*	11	10	*	9	*	*	*	*	17	*	15
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	9	7	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	7	*	5
Technoleg Gwybodaeth	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	18	5	13	*	*	*	5	5	5	*	*	*	*	8	*	7
Y Gyfraith a Llywodraethu	2	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Pobl a Pherfformiad	3	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Gwasanaethau Rheoleiddio	3	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Tai Strategol	2	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Cyfanswm	103	33	70	0	12	23	30	20	17	1	0	2	6	51	4	51

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan * i ddiogelu hunaniaeth

Tabl 10b – Ymgeiswyr Mewnol a Benodwyd yn ystod 2023-2024

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr Mewnol a Benodwyd	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig (Mwyafrif Byd-eang)	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	51	6	45	*	*	23	11	5	7	*	*	*	*	17	*	26
Cyllid Corfforaethol	10	*	10	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	5	*	6
Economi a Diwylliant	165	76	89	*	75	39	18	19	10	*	*	8	6	36	10	83
Addysg	135	38	97	*	16	39	42	25	13	*	*	*	7	54	*	65
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	79	61	18	*	13	12	25	11	13	5	*	*	*	29	*	47
Technoleg Gwybodaeth	14	12	*	*	*	6	*	*	*	*	*	*	*	*	*	9
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	131	27	104	*	12	38	34	32	14	*	*	*	9	50	*	52
Y Gyfraith a Llywodraethu	6	*	5	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	4	*	3
Pobl a Pherfformiad	8	*	6	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	5	*	4
Gwasanaethau Rheoleiddio	12	9	*	*	*	*	5	*	*	*	*	*	*	6	*	8
Tai Strategol	14	*	14	*	*	*	*	5	*	*	*	*	*	8	*	8
Cyfanswm	626	232	394	0	126	167	149	108	64	12	0	16	27	218	24	312

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan * i ddiogelu hunaniaeth

Tabl 10c – Cyfanswm yr Ymgeiswyr a Benodwyd yn ystod 2023-2024

Gwasanaeth	Cyfanswm a Benodwyd	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig (Mwyafrif Bydeang)	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
